

Senedd Cymru

Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Ymchwiliad: Llwybrau prentisiaeth

Cyf: AP15

Ymateb gan: Gofal Cymdeithasol Cymru

-

Welsh Parliament

Economy, Trade, and Rural Affairs Committee

Inquiry: Apprenticeship pathways

Ref: AP15

Evidence from: Social Care Wales





04 Chwefror 2025

Ymateb ymgynghoriad - Llwybrau prentisiaeth

Annwyl Bwyllgor,

Diolch am y cyfle i Gofal Cymdeithasol Cymru gyfrannu at yr ymgynghoriad, "Llwybrau prentisiaeth."

Gofal Cymdeithasol Cymru yw rheoleiddiwr y gweithlu a chorff datblygu'r gweithlu strategol ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae gennym hefyd rôl wrth gefnogi datblygiad y gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant. Fel rhan o'n rôl, rydym yn gosod safonau, yn cefnogi datblygu cymwysterau a fframweithiau prentisiaeth y gweithlu gofal a chymorth gofal cymdeithasol a'r gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant. Mae gan weithwyr Gofal Cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant rôl hanfodol wrth gefnogi rhai o'r unigolion mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, felly rydym am gefnogi'r gweithlu i gael y wybodaeth a'r sgiliau i amddiffyn, grymuso a chefnogi'r rhai sydd angen help. O ystyried rôl hanfodol y gweithwyr hyn, mae llawer o rolau yn gofyn am gymwysterau penodol i fodloni gofynion proffesiynol a rheoleiddio gwasanaethau.

Mae gan [Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) thema benodol ar addysg a dysgu, gydag uchelgais y bydd y buddsoddiad mewn addysg a dysgu ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, erbyn 2030, yn darparu'r sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen i ddiwallu anghenion pobl Cymru. Mae prentisiaethau'n elfen allweddol o gefnogi unigolion sy'n cychwyn ar yrfaeod gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar ac maent hefyd yn hollbwysig wrth gofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol ar bob lefel.

Rydym wedi rhannu ein hymateb yn ddwy adran;

- 1) adlewyrchu'r profiad a'r heriau rydym wedi'u cael yn ymgysylltu â darparwyr dysgu, cyflogwyr a dysgwyr sy'n ymgymryd â phrentisiaethau.
- 2) y gwaith yr ydym wedi'i wneud i geisio cefnogi'r sector i weithredu dulliau gweithredu rhaglenni darparu prentisiaethau.

Rydym yn edrych ymlaen at ddysgu ymhellach o'ch gwaith.



Ein profiad o weithio oddi fewn y sector

Nid yw'r sector yn tueddu i gyflogi prentisiaid yn yr un ffordd â diwydiannau eraill wrth iddynt recriwtio gweithwyr gofal ac yna ceisio eu hyfforddi a'u cymhwyso. Mae'n deg dweud bod gan rai Awdurdodau Lleol gynlluniau sy'n cyflogi pobl fel prentisiaid sy'n llwyddiannus ac yn galluogi dilyniant a chadw, ond eithriad yw'r cynlluniau hyn yn hytrach na'r rheol ar draws y sector cyfan.

Mae'n bwysig tynnu sylw yma at yr effaith a gafodd y pandemig ar gyflwyno a chyflawni cymwysterau galwedigaethol ac felly prentisiaethau wrth i fynediad at gyfleoedd asesu seiliedig ar ymarfer ddod yn gyfyngedig yn y sector, mae wedi cymryd peth amser i "adfer" y momentwm fodd bynnag mae rhai arwyddion o adferiad yn seiliedig ar y data sydd ar gael.

Yn gyffredinol, rydym wedi gweld gwell ystadegau cwblhau ar gyfer prentisiaid sy'n cwblhau fframweithiau prentisiaeth rhwng 2022/23 a 2023/24.

Chwarae Gofal Plant Dysgu a Datblygu Craidd ac Ymarfer Lefel 2; Cynnydd o 38% Dysgu a Datblygu Lefel 3 Craidd ac Ymarfer Chwarae Gofal Plant; Cynnydd o 64% Dysgu a Datblygu Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 4 ymarfer prof; Cynnydd o 15%

Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2 Oedolion yn cynyddu 6%
Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3 Oedolion yn gostwng 15%
Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3 Plant a phobl ifanc yn cynyddu 24%
Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 4 Cynnydd mewn Ymarfer Proffesiynol o 190%
Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol Cynnydd o 200%
Ymarfer Arweinyddiaeth a Rheolaeth Lefel 5 Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynyddu 200%

Byddwn yn parhau â'r duedd hon o gymharu cyflawniadau blwyddyn ar ôl blwyddyn. Ond o'r data sydd ar gael, gallwn gael lefel o hyder bod y fframweithiau yn gyraeddadwy ac yn sefydlogi, ar ôl effaith y pandemig.

Mae iechyd a gofal cymdeithasol yn gyson yn denu mwy o ddysgwyr prentisiaeth nag unrhyw sector neu ddiwydiant arall. Mae data ar gael ar raglenni dysgu rhyngweithiol Llywodraeth Cymru dangosfwrdd [Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddecreuwyd: dangosfwrdd rhyngweithiol | LLYW.CYMRU](#) a'r categori ar gyfer iechyd



a gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant yn cael eu cofnodi o dan Ofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae'r rhan fwyaf o rolau gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant yn gofyn am gymwysterau penodol, naill ai wedi'u nodi mewn [fframweithiau cymwysterau](#) a bennwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru a/neu drwy safonau gwasanaeth gofynnol a arolygwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru ac yn cyfrannu at sicrhau diogelwch a lles unigolion bregus. Mae'r prentisiaethau sy'n cael eu cynnig yn cefnogi'r gweithlu i gyflawni'r cymwysterau sydd eu hangen ar gyfer ymarfer yn y sector, felly gall unrhyw newidiadau mewn prentisiaethau gael effaith sylweddol felly ar allu'r gweithlu i fodloni ymrwymïadau polisi rheoleiddiol ac ehangach er enghraifft Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chyflwyno'r cynnig gofal plant.

Rydym yn ymgysylltu'n barhaus â darparwyr dysgu, cyflogwyr a dysgwyr ac o'r gwaith hwn gallwn nodi gwybodaeth allweddol mewn perthynas â'r themâu a nodwyd gan y Pwyllgor. Nodwyd nifer o heriau y gellir eu categorïddio i'r canlynol ac a chymhwyso i bob un neu rai o'r fframweithiau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant.

Tegwch cymorth a mynediad i ddysgwyr:

- Cydnabod dysgu blaenorol a phrofiad dysgwyr o orfod ailadrodd dysgu wrth symud darparwyr dysgu
- Hyd y fframweithiau (amser a ganiateir ar y rhaglen)
- dysgwyr sy'n gadael y rhaglenni
- Gall gwybodaeth a ddarperir cyn ymuno â'r sector fod yn gamarweiniol mewn perthynas â llwybrau gyrfa a gofynion cymhwyster y sector

Cyflogwyr

- Pwysau gwasanaeth a'r gallu i gefnogi lleoliadau a/neu brentisiaid.
- Cyllid ar gyfer fframweithiau: Mae'r gostyngiad yn y cyllid ar gyfer prentisiaethau wedi bod yn destun pryder mawr yn ddiweddar, yn bennaf o ganlyniad i golli cyllid Ewropeaidd. Rydym yn dal i aros i weld effaith lawn y gostyngiad hwn ond rydym yn ymwybodol o'r adroddiad a luniwyd gan Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a Cholegau Cymru sy'n amlygu effeithiau posibl y gostyngiad hwn.

Cadeirydd/Chair: Mick Giannasi CBE, QPM
Prif Weithredwr/Chief Executive: Sarah McCarty



Llwybrau rhwng lefelau prentisiaethau

Nid oes gan Ofal Cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant unrhyw brentisiaethau lefel uchel ar hyn o bryd. Mae llwybrau yn y fframweithiau'n ymddangos yn syml ond weithiau mae bwlch rhwng lefelau'r disgwyliadau wrth symud o'r rolau sy'n seiliedig ar sgiliau ar lefel 2 a 3 i'r rolau mwy mewn rheoli a goruchwylio sy'n gysylltiedig â Lefelau 4 a 5.

Weithiau ceir heriau anfwriadol o'r gofynion mynediad i gael mynediad at brentisiaeth e.e. 16 awr o gyflogaeth neu fwy ar gyfer sector sydd â gweithlu rhan amser sylweddol ond hefyd rhannau o'r sector nad ydynt yn gallu dangos eu cyflogaeth e.e. gofalcwyr maeth felly'n methu cael mynediad at fframweithiau prentisiaeth ac elwa arnynt.

Fodd bynnag, mae'r pwyntiau a godwyd gyda ni yn canolbwyntio ar:

- Mynediad at gymwysterau a gallu i gyflawni, yn enwedig capasiti asesu.
- Asesiad cymwysterau, gan gynnwys cyflwyno asesiadau pwynt diwedd ar gyfer y cymwysterau perthnasol.
- Darparu cymwysterau gan gynnwys arbenigedd "staff addysgu" a'r gallu i recriwtio a chynnal gweithlu cyflenwi cynaliadwy.
- Yr heriau parhaus o gyflawni a chyflawni elfen sgiliau hanfodol y fframweithiau.

Ein hymateb i gefnogi llwybrau prentisiaeth

Fel rhan o'n cylch gwaith ar gyfer datblygu a gweithredu fframweithiau llwybrau prentisiaeth a'r cymorth sydd ei angen ar gyfer y sector, rydym wedi ymgymryd â'r meysydd gwaith canlynol dros y cyfnod diweddar:

- Tîm cymwysterau a safonau sy'n darparu cefnogaeth barhaus i Sefydliadau Dyfarnu, darparwyr dysgu, cyflogwyr a dysgwyr i gefnogi'r datblygu a chyflwyno cymwysterau galwedigaethol gan gynnwys prentisiaethau
- [Tudalennau gwe pwrpasol](#) i gefnogi'r ddealltwriaeth o brentisiaethau
- Gofalwn Cymru sef ein rhaglen waith gyrfaoedd a chwilio am waith sy'n ceisio hyrwyddo'r cyfleoedd am gyflogaeth yn barhaus yn y sector trwy wybodaeth a chefnogaeth gyrfaoedd clir Gofalwn Cymru ac mae ganddo dudalennau sy'n ymroddedig i [brentisiaethau](#)



- Mae gennym hefyd ymgyrch lawn yn ystod wythnos brentisiaethau sy'n arddangos y bobl hynny yn y sector sydd â straeon i'w hadrodd am eu profiad prentisiaethau.
- Rydym wedi gweithio'n agos gyda Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith i gefnogi eu gwaith gan gynnwys darparu sesiynau briffio parhaus i'w cynghorwyr i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau'r sector. Mae hyn wedi cynnwys darparu dolenni i'n hadnoddau i sicrhau bod lefel uniongyrchol o gymorth ar waith ar gyfer ceiswyr gwaith. Mae'r adborth ar gyfer y sesiynau hyn wedi bod yn hynod gadarnhaol.
- Mae'r tîm cymwysterau a safonau wedi gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr, darparwyr dysgu, colegau Addysg Bellach a City and Guilds i ddatblygu canllawiau i gyflogwyr mewn perthynas â [lleoliadau prentisiaeth](#) ym maes gofal cymdeithasol.
- Mae'r cymhwyster galwedigaethol Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol (SSP) yn gymhwyster dysgu seiliedig ar waith y gellir ei gyrchu drwy gyllid prentisiaeth. Rydym wedi gweithio gyda'r Brifysgol Agored fel y gall dysgwyr sy'n cwblhau cymhwyster SSP City & Guilds symud ymlaen i ail flwyddyn Gradd Gwaith Cymdeithasol y Brifysgol Agored yn unol â phrosesau ymgeisio a recriwtio a noddi arferol y brifysgol a chyflogwyr. Mae hwn yn gam mawr o ran ehangu mynediad a gwella llwybrau gyrfa
- Mewn ymateb i heriau sy'n ymwneud â chyflawni sgiliau hanfodol, gwnaethom nodi'r angen am brosiect gyda dau gam:
 - Cam 1) Ymchwil i adnoddau presennol i'n helpu i nodi sut y gellir gwella adnoddau dysgu ac addysgu sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i ddarparu cymwysterau Sgiliau Hanfodol i ddysgwyr lechyd a Gofal Cymdeithasol (HSC) a Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant (EYCC) i adlewyrchu'r sector yn well, a
 - Cam 2) Datblygu set o adnoddau dysgu ac addysgu cenedlaethol, penodol i'r sector, dwyieithog yn seiliedig ar ganlyniad yr ymchwil.

Hyd yn hyn rydym wedi cwblhau cam un ac rydym wrthi'n cwblhau'r cam yn ystod 2025.

- Rydym yn darparu cyllid grant blynnyddol i'r Awdurdodau Lleol yng Nghymru i gyflogi cysylltwyr gyrfaedd rhanbarthol a'u prif nod yw gweithio yn yr ardal leol i hyrwyddo gyrfaedd yn y sector. Mae'r cyllid yn cefnogi saith swydd o'r fath ac maent yn gweithio gyda chyflogwyr, darparwyr dysgu, (gorfodol ac ôl-orfodol), gwasanaethau gyrfaedd a sefydliadau cyflogaeth fel yr Adran Gwaith a



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Phensiynau (DWP) a'r ganolfan waith ynghyd i helpu i ddarparu cefnogaeth, adnoddau a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o yrfaeodd yn y sector.

I gloi, mae'n hollbwysig ein bod yn cefnogi pob dysgwr waeth beth fo'u hoedran, i allu gweld yn glir y llwybrau sy'n agored iddynt, boed hynny yn ddysgu pellach ac addysg neu i gyflogaeth. Fel y gwelwch, rydym yn ymdrechu i gefnogi hyn ond yn cydnabod bod llawer mwy i'w wneud, gan weithio mewn partneriaeth â'r holl randdeiliaid allweddol i sicrhau budd i bawb.

Yn gywir

Jon Day

Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Gweithlu
Gofal Cymdeithasol Cymru

Cadeirydd/Chair: Mick Giannasi CBE, QPM
Prif Weithredwr/Chief Executive: Sarah McCarty

0300 30 33 444
gofalcymdeithasol.cymru
socialcare.wales



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government